What are your views on creating a compulsory, national licensing system for practitioners of specified special procedures in Wales, and that the premises or vehicle from which the practitioners operate must be approved?

The British Acupuncture Council (BAcC) believes that the introduction of a new compulsory national licensing scheme for special procedures will remove many of the anomalies which have arisen in the enforcement of Local Government Miscellaneous Provisions Act (1982) as amended by the Local Government Act 2003. The existence of non-mandatory model byelaws has not always led to consistent adoption of similar models by local authorities, and the BAcC's experience is that local enforcement across the UK as a whole has been variable, with many authorities blurring the distinction between legal requirements and best practice advice in enforcement. A standardised system across Wales will both eradicate idiosyncratic interpretations of the law and create a single reference point for discussion and consultation on any variations which might be required in line with developments in health and safety requirements.

It follows that the BAcC supports any provision to approve the premises or vehicles in which or from which special procedures are performed. The provision of clear guidance as outlined in the consultation document would set down a standard which would enable practitioners to ensure their premises were satisfactory, and as above, make very clear what upgrades and updates may be required in future.

In summary, the BAcC supports these proposals, with the caveat that the advantages of a centralised system could be undermined unless suitable consultation procedures are in place for future development of the licensing conditions. The BAcC was heavily involved in the drafting of the model byelaws by the Department of Health in 2005/6 and was able to bring important practitioner concerns to the fore when the national guidelines were created. The special procedures covered by this proposal range from the minimally invasive to the necessarily near-surgical, and it is important to enshrine a level of proportionality into guidelines affecting a range of techniques to avoid an unnecessary and unfair levelling up of requirements. This has to involve input from the professions, and the BAcC hopes that this will be taken into account if these proposals become law.

Do you agree with the types of special procedures defined in the Bill?

The types of procedure outlined in the Bill are consistent with those in primary legislation elsewhere in the UK, except Greater London where 'special treatments' has a wider definition under the London Local Authorities Act 1991. The BAcC would not wish to see any changes to this list at this stage.

However, the emergence of variations on the standard theme has been considerable over the last forty years, and there are a number of techniques used in Traditional East Asian medicine, for example, which are proscribed by regulatory bodies like the BAcC but may actually be used by practitioners who choose not to register with a voluntary association. The example of 'wet cupping', a procedure widely used in China, demonstrates how there may well be variations to any of the named disciplines in the Bill which could be advertised and used without reference to the provisions of the Bill for want of inclusion within the definitions. The BAcC would welcome further discussion during the implementation of the Bill about the scopes of practice of the various techniques and what a local authority could reasonably claim to hold jurisdiction over.

What are your views on the provision which gives Welsh Ministers the power to amend the list of special procedures through secondary legislation?

The BAcC believes that such a provision is essential to avoid unnecessary expense or unnecessary delay in extending the range of procedures covered by the legislation. As noted above, however, the BAcC would welcome explicit rules for consultation if secondary powers are invoked in this way.

The Bill includes a list of specific professions that are exempt from needing a licence to practice special procedures. Do you have any views on the list?

The BAcC is pleased to see that registration under the Professional Standards Authority's AVR scheme has been accepted as a basis for exemption. Its experience of submitting itself to this new scheme has been that the requirements for accreditation have been onerous and robustly enforced, and have demonstrated this this is not a 'soft option.'

The only cautionary note which the BAcC would like to sound is in relation to the exemption granted to registrants of professions regulated by statute. Its experience is that while most doctors and physiotherapists who undertake acupuncture belong to the relevant special interest bodies within their professions (the British Medical Acupuncture Society and Acupuncture Association of Chartered Physiotherapists), many other registered professionals like osteopaths and chiropractors go 'off the radar' in the absence of equivalent special interest bodies within their professions. This has meant that neither safety nor training standards of such practitioners are vetted, and the BAcC does not believe that this is entirely adequate. Set against the argument that the threat of loss of title ensures compliance with appropriate rules is the counter argument that you can't know what you don't know, and that it is not satisfactory to find out that something has gone wrong after it has gone wrong.

The BAcC would favour some form of explicit statement that there were powers within the Bill to inspect the premises of exempted practitioners where concerns has been raised about their standards of practice, and would be happy to see this enforced in relation to its own members. The logic applied in Greater London is that the exemption is granted on the assumption of maintaining exemplary standards, and therefore failure to maintain standards

should set aside the veil of exemption. Given that there are several published and readily accessible standards for safe acupuncture practice and recognised training, the BAcC believes that a local authority should have powers within the Bill to inspect and enforce precisely as it does with other licensees.

Do you have any views on whether enforcing the licensing system would result in any particular difficulties for local authorities?

The BAcC is generally satisfied that the system as outlined in the Bill can be enforced effectively by local authorities, and believes that the clarity of the national statements and guidelines will eradicate those problems which it has met elsewhere. These have primarily been the generation of idiosyncratic rules by local Environmental Health Officers based on their personal beliefs, and the turnover of staff which has meant that incoming officers have not been properly inducted into the system, and have applied it somewhat arbitrarily. The new licensing arrangements should ensure that the reference material Is available and consistently applied across the principality.

Do you believe the proposals relating to special procedures contained in the Bill will contribute to improving public health in Wales?

There is no doubt that a clear statement of standards and enforcement will be of benefit to public health in Wales, not least because an increasingly well-informed public used to electronic access to information will be able to find out easily what the relevant standards are and have confidence that anyone licensed within the new system has met and continues to meet them. This will also benefit the practitioners themselves, whose profile will be enhanced by demonstrating that the public can have trust that they are safe and competent.

The BAcC is grateful for having been invited to participate in the consultation, and would welcome any future invitations to be involved in the drawing up of detailed guidelines for acupuncture and acupuncture practitioners.

4th August 2015

National Assembly for Wales / Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Health and Social Care Committee / Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Public Health (Wales) Bill / Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)

Evidence from British Body Piercing Association – PHB 08 / Tystiolaeth gan Cymdeithas Prydain ar gyfer Tyllu'r Corff – PHB 08

Public Health (Wales) Bill: Consultation questions

Special Procedures

The Bill includes a proposal to create a compulsory licensing system for people who carry out special procedures in Wales. These special procedures are tattooing, body piercing, acupuncture and electrolysis. The places where these special procedures are carried out will also need to be approved.

Question 7

What are your views on creating a compulsory, national licensing system for practitioners of specified special procedures in Wales, and that the premises or vehicle from which the practitioners operate must be approved?
The British Body Piercing Association has set in place codes of practice and ethics which all members have adopted and use these in their work place. (please find attached) We have the most up to date training and follow the guide lines set by local boroughs. Body piercers need to be more regulated within their premises and have a recognised body in which they can rely on for support and further training.

Question 8

Do you agree with the types of special procedures defined in the Bill?
Yes, all of these areas of work are those of great skill and performed incorrectly can result in emergency medical treatment. Which in turn has consequences? The ability of the body piercer is defined not only by the teachings of the body piercer but confidence and ongoing support.

Question 9

What are your views on the provision which gives Welsh Ministers the power to amend the list of special procedures through secondary legislation?

By being able to amend current special procedures and aim to put in place newer protocol fits with keeping in with what consumers want. They want to know the best place to have a body piercing, and to know that the studio is certified.

Body piercing is something that has been used for years and does hold a rite of passage to not be regulated, but a huge percentage of body piercers do no withhold a basic understanding of body piercing. By bringing a standard of body piercing there would be far lesser impact on consumers not achieving the desired outcome and incounter problems.

Question 10

Do you have any views on whether enforcing the licensing system would result in any particular difficulties for local authorities?
By enforcing new licensing systems it brings the industry to a professional standing, Currently there are two candidates that have been working within the body piercing industry outside of EHO, TPIU and The Association of Professional Piercers, (APP) neither of these organisation warrant the merit of the body piercer you can simply fill in a form and make a payment, The memberships are not built to aid the body piercer. By bringing new regulations that are within a workable ability for piercing professionals I believe this will only impact in a positive light. Local authorities should be able to rely on potential training and associations to give help and guidance, but also be able to liaise with local business to keep them up to date with new requirements. By having more understand of the job that a body piercer does I believe will help to encourage people to want to push forward and become the industry recognised people they are.

Intimate piercings

The Bill includes a proposal to ban intimate body piercings for anyone under the age of 16 in Wales.

Question 11

Do you believe an age restriction is required for intimate body piercing? What are your views on prohibiting the intimate piercing of anyone under the age of 16 in Wales?
The use of age restrictions is something that needs to come in to affect more, especially with in intimate areas of the body. The BBPA do use an age restriction within the codes of practices and ethics, Which is highly regarded with in the studios of our members. Prohibiting intimate piercings for under the age of 16 will give moral standing. Being able to allow a parent or guardian to stand guardian of the person I feel will be adequately sufficient for above the waist piercings. Female's nipples should be considered for piercing over 18 only. However anything below the waist I believe should only be in performed by someone who has adequate knowledge of the anatomy of the genitals and has had further training with in this specific area and should not be performed on anyone under the age of 18. Actively working with the in industry allows me to be in constant communication with piercers and pierce'es on average the majority of under 16's are already aware that they will need a parent or guardian to be present when having their piercing performed.

Question 12

Do you agree with the list of intimate body parts defined in the Bill? Whether any other types of piercings (for example naval piercing, tongue piercing) should be prohibited on young people under the age of 16.
Yes, in my opinion the list is correct. I believe that the environment that the intimate piecing is taking place should be performed in a stricter platform. An utilised area which can be designated to the use of genital piercings only. Their also needs to be more information and advise based around these piercing for the general public. The basis of body piercing is training and consultation, the tool book creates a

really good basis to go forward with however it does not promote the ability's of the body piercer.

Weather a body piercer is piercing an ear, an belly button or a nipple the client knows they will have to be contact made in that particular area.

Other comments

Question 19

Do you believe that the issues included in this Bill reflect the priorities for improving public health in Wales?
Yes. There is a huge potential to be able to create an better environment for every one today.

Eitem 8.1

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Lleoliad:	**Ystafell Bwyllgora 3 – Senedd**
Dyddiad:	**Dydd Iau, 9 Gorffennaf 2015**
Amser:	**09.17 – 11.52**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://senedd.tv/cy/3026

Cofnodion Cryno:

Aelodau'r Cynulliad:	**David Rees AC (Cadeirydd)** **Alun Davies AC** **John Griffiths AC** **Altaf Hussain AC** **Elin Jones AC** **Lynne Neagle AC** **Gwyn R Price AC** **Lindsay Whittle AC** **Kirsty Williams AC**
Tystion:	**Dr Julie Bishop, Iechyd Cyhoeddus Cymru** **Dr Quentin Sandifer, Iechyd Cyhoeddus Cymru** **Dr Gillian Richardson, Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan** **Dr Sara Hayes, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg**
Staff y Pwyllgor:	**Llinos Madeley (Clerc)** **Helen Finlayson (Ail Glerc)** **Catherine Hunt (Ail Glerc)** **Sian Giddins (Dirprwy Glerc)** **Rhys Morgan (Dirprwy Glerc)** **Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol)**

Amy Clifton (Ymchwilydd)
Philippa Watkins (Ymchwilydd)

Trawsgrifiad
Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

1 Y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru): trafodaeth ar drefn ystyried trafodion Cyfnod 2

1.1 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn ystyried trafodion Cyfnod 2 y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) mewn egwyddor.

2 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

2.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Darren Millar.

3 Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru): sesiwn dystiolaeth 2

3.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan yr Athro Mark Bellis.

3.2 Ymatebodd y tystion i gwestiynau gan yr Aelodau.

3.3 Cytunodd y tystion i ddarparu nodyn ar yr eitemau a ganlyn i'r Pwyllgor:

- y cydweithio rhwng Iechyd Cyhoeddus Cymru, Chwaraeon Cymru a Llywodraeth Cymru er mwyn annog gweithgarwch corfforol i wella iechyd pobl leol;
- eu barn ar p'un a ddylid cynnig cymhelliant ariannol er mwyn helpu awdurdodau lleol i ddarparu toiledau cyhoeddus;
- eu barn ar gyflwyno cyfyngiad oedran gofynnol ar gyfer tyllu rhannau o'r corff;
- unrhyw fesurau rheoli tybaco ychwanegol y dylid ystyried eu cynnwys yn y Bil; ac
- unrhyw dystiolaeth sy'n dangos effaith anweddau gweddilliol ac anweddau trydydd-law o e-sigaréts.

4 Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru): sesiwn dystiolaeth 3

4.1 Ymatebodd y tystion i gwestiynau gan yr Aelodau.

5 Papurau i'w nodi

5.1 Cofnodion y cyfarfodydd ar 17 a 25 Mehefin 2015

5.1a Nododd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 17 a 25 Mehefin 2015.

6 Cynnig o dan Reolau Sefydlog 17.42 (vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

6.1 Derbyniwyd y cynnig.

7 Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru): trafod y dystiolaeth

7.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

8 Blaenraglen waith y Pwyllgor.

8.1 Cytunodd y Pwyllgor ar yr amlinelliad o'r flaenraglen waith ar gyfer mis Medi i fis Hydref 2015, a chytunodd i ddychwelyd at yr eitem hon yn y dyfodol.

8.2 Yn sgil sylw'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ei fod yn bwriadu cynnig penderfyniad ariannol ar gyfer y Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru) yn nechrau tymor yr hydref, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes i ofyn am estyniad i'r dyddiad cau ar gyfer cwblhau trafodion Cyfnod 2.

8.3 Trafododd y Pwyllgor ei flaenraglen waith ar gyfer mis Tachwedd 2015 i fis Mawrth 2016, a chytunodd i ddychwelyd at yr eitem hon yn y dyfodol.

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Lleoliad:	**Ystafell Bwyllgora 3 – Senedd**
Dyddiad:	**Dydd Mercher, 15 Gorffennaf 2015**
Amser:	**09.18 – 11.55**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://senedd.tv/cy/3013

Cofnodion Cryno:

Aelodau'r Cynulliad:	**David Rees AC (Cadeirydd)** **Alun Davies AC** **John Griffiths AC** **Altaf Hussain AC** **Elin Jones AC** **Darren Millar AC** **Lynne Neagle AC** **Gwyn R Price AC** **Lindsay Whittle AC** **Kirsty Williams AC**
Tystion:	**Julie Barratt, Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd** **Robert Hartshorn, Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru** **Paul Mee, Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru** **Naomi Alleyne, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru** **Simon Wilkinson, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**
Staff y Pwyllgor:	**Llinos Madeley (Clerc)** **Christopher Warner (Clerc)** **Helen Finlayson (Ail Glerc)** **Catherine Hunt (Ail Glerc)** **Sian Giddins (Dirprwy Glerc)**

Rhys Morgan (Dirprwy Glerc)
Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol)
Amy Clifton (Ymchwilydd)
Elfyn Henderson (Ymchwilydd)
Victoria Paris (Ymchwilydd)
Philippa Watkins (Ymchwilydd)

Trawsgrifiad
Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Ni chafwyd ymddiheuriadau.

2 Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru): sesiwn dystiolaeth 4

2.1 Ymatebodd y tyst i gwestiynau gan yr Aelodau.
2.2 Cytunodd y tyst i ddarparu'r canlynol i'r Pwyllgor:

- nodyn ar ddigwyddiad a nodwyd gan Iechyd Cyhoeddus Lloegr yn ymwneud ag aciwbigo; a
- manylion am astudiaeth ar blant yn defnyddio sigaréts melys yn trosglwyddo i ysmygu.

3 Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru): sesiwn dystiolaeth 5

3.1 Ymatebodd y tystion i gwestiynau gan yr Aelodau.

4 Papurau i'w nodi

4.1 Cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 1 Gorffennaf 2015
4.1a Nododd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Gorffennaf 2015.

4.2 Ymchwiliad i gamddefnyddio alcohol a sylweddau: gwybodaeth ychwanegol gan y Dirprwy Weinidog Iechyd
4.2a Nododd y Pwyllgor y wybodaeth ychwanegol.

4.3 Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru): gohebiaeth gan y Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
4.3a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth.

5 Cynnig o dan Reolau Sefydlog 17.42(vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

6 Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru): trafod y dystiolaeth

6.1 Ystyriodd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

7 Ymchwiliad i gamddefnyddio alcohol a sylweddau: trafod yr adroddiad drafft

7.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod yr adroddiad drafft, a chytunodd arno yn amodol ar fân newidiadau.

8 Gwaddol Pwyllgorau'r Pedwerydd Cynulliad: trafod y dull gweithredu

8.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod ei ddull gweithredu o ran ei waddol yn y Pedwerydd Cynulliad, a chytunodd arno.

Eitem 8.2

Mark Drakeford AC / AM
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: LF/MD/0688/15

David Rees AM
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

4 Medi 2015

Annwyl David

Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)

Hoffwn ddiolch i chi a'r Pwyllgor am y cyfle i drafod Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) ar 1 Gorffennaf 2015.

Rwyf yn falch o ddarparu mwy o wybodaeth i'r Pwyllgor am y materion canlynol, a godwyd yn ystod y sesiwn:

a) barn Llywodraeth Cymru ar gymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i osod cyfyngiadau ar werthu cynhyrchion siwgr uchel ac alcohol, ac i wahardd gwerthu sigaréts confensiynol yng Nghymru;

b) manylion am gymorth meddygol a geisir o ganlyniad i gael unrhyw un o'r triniaethau arbennig a gynhwysir yn y Bil, gan gynnwys y gost o ddarparu triniaeth;

c) manylion y dystiolaeth y cyfeiriais ati fod y rhan fwyaf o ddefnyddwyr e-sigaréts hefyd yn defnyddio sigaréts tybaco confensiynol;

ch) gwybodaeth am y gyfradd llwyddiant o ran defnyddio e-sigaréts fel dull o roi'r gorau i smygu o'i gymharu â dewisiadau eraill; a

d) mwy o wybodaeth am y materion hawliau dynol sy'n ymwneud â'r Bil o ran ysmygu a'r defnydd o e-sigaréts mewn anheddau preifat sydd hefyd yn weithleoedd, ac am y darpariaethau pwerau mynediad a gynhwysir yn y Bil.

Cyflwynir y wybodaeth hon isod.

Cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i osod cyfyngiadau ar werthu cynhyrchion siwgr uchel ac alcohol, ac i wahardd gwerthu sigaréts confensiynol yng Nghymru

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i adolygu'r buddion posibl i iechyd y cyhoedd o ganlyniad i osod cyfyngiadau ar werthiant cynhyrchion siwgr uchel neu ar sut y mae manwerthwyr yn arddangos alcohol. Nid yw'n bolisi gan Lywodraeth Cymru i gyflwyno gwaharddiad ar werthu sigaréts confensiynol yng Nghymru. Fel y cyfryw, nid oes cynigion polisi manwl wedi eu datblygu nac wedi bod yn destun ymgynghoriad, ac nid oes darpariaethau deddfwriaethol wedi eu drafftio. Bydd y Pwyllgor yn gwerthfawrogi'r ffaith fod unrhyw asesiad o gymhwysedd yn unol ag adran 108 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn ymwneud â darpariaethau gwirioneddol Deddfau'r Cynulliad, nid polisïau cyffredinol, ac nad yw'n bosibl, heb ddarpariaethau drafft, i fynegi barn derfynol ar gymhwysedd. Fodd bynnag, er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor, nodir isod restr o ffactorau a fyddai'n debygol o gael eu hystyried yn ystod unrhyw ddadansoddiad o gymhwysedd darpariaethau drafft.

Mae Adran 108 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn nodi terfynau cymhwyster y Cynulliad. Mae adran 108(4) yn darparu bod darpariaeth o fewn cymhwyster os yw'n ymwneud ag un neu fwy o bynciau a restrir dan y penawdau yn Rhan 1 o Atodlen 7 y Ddeddf ac nad yw'n dod o dan unrhyw un o'r esemptiadau yn y Rhan honno. O ganlyniad, byddai angen ystyried pa un a fyddai'r darpariaethau'n ymwneud â phynciau Atodlen 7, o ystyried diben ac effaith y darpariaethau. Mae'r pynciau yn Atodlen 7 a allai fod yn berthnasol i'r ddau destun yn cynnwys 'hyrwyddo iechyd', 'atal, trin a lliniaru clefydau, salwch, anaf, anabledd ac anhwylder meddyliol', ac 'amddiffyn a llesiant plant'. Gallai 'bwyd a chynhyrchion bwyd' hefyd fod yn berthnasol i gyfyngiadau ar gynhyrchion siwgr uchel ac alcohol.

Fodd bynnag, byddai hefyd angen ystyried pa un a fyddai'r darpariaethau'n dod o dan esemptiadau Atodlen 7. O ran gosod cyfyngiadau ar werthu cynhyrchion siwgr uchel ac alcohol, gallai nifer o esemptiadau fod yn berthnasol, gan gynnwys yr esemptiad 'diogelu defnyddwyr' dan bennawd 4 a'r esemptiad 'trwyddedu' dan bennawd 12. O ran gwahardd tybaco, byddai angen ystyried pa un a fyddai'r darpariaethau'n dod o dan yr esemptiad 'safonau a diogelwch cynhyrchion' neu'r esemptiadau 'eiddo deallusol' dan bennawd 4.

Mae Adran 108(6)(c) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu ymhellach pan fo darpariaeth yn dod o dan adran 108(4), bydd y tu allan i gymhwysedd y Cynulliad os yw'n anghydnaws â hawliau Confensiwn neu gyfraith yr Undeb Ewropeaidd. Mae'n debygol iawn y byddai unrhyw ddarpariaethau sy'n ceisio lleihau'r defnydd o gynhyrchion siwgr uchel ac alcohol yn golygu ymyrryd â meddiannau, sy'n dod dan gwmpas Erthygl 1 y Protocol Cyntaf, ac o bosibl, yn ymyrraeth â'r hawl i ryddid mynegiant y darperir ar ei gyfer gan Erthygl 10 y Confensiwn. Heb gael mwy o fanylion am y cynigion penodol, mae'n anodd asesu pa un a fyddent o fewn cymhwysedd. O ran gwaharddiad ar werthu tybaco, byddai angen rhoi ystyriaeth ofalus i ba un a fyddai unrhyw ddarpariaethau'n mynd yn groes i'r egwyddor symud nwyddau yn rhydd, yn benodol, y ffaith fod gwahardd cyfyngiadau a mesurau meintiol yn cael yr un effaith â chyfyngiadau o'r fath yn Erthygl 34 y Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd.

Ar wahân i broblemau cymhwysedd, byddai angen i unrhyw welliannau sy'n cael eu hawgrymu i Fil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) gydymffurfio â Gorchymyn Sefydlog 26.61.

Manylion am gymorth meddygol a geisir o ganlyniad i gael unrhyw un o'r triniaethau arbennig a gynhwysir yn y Bil, gan gynnwys y gost o ddarparu triniaeth

Mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu mai'r rhan fwyaf o gymhlethdodau sy'n gysylltiedig â thriniaethau arbennig yw heintiau y croen, ond gall amrywiaeth o gymhlethdodau o ddifrifoldeb amrywiol godi. Nid yw systemau casglu data presennol y GIG yn darparu gwybodaeth am nifer y bobl y mae angen cymorth meddygol arnynt oherwydd cymhlethdodau o'r fath, ac o ganlyniad, nid yw Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i ddarparu'r data y gofynnwyd amdano.

Mae pob un o'r pedair triniaeth a gynhwysir yn y Bil yn ymwneud â thyllu drwy'r croen, ac felly maent yn achosi risg posibl i iechyd os gwneir hyn mewn modd anhylan. O ganlyniad, rwyf yn fodlon fod rheoleiddio cymesur o'r triniaethau hyn yn briodol, er mwyn amddiffyn y cyhoedd yn effeithiol rhag y posibilrwydd o niwed.

I ddangos y math o niweidiau a all gael eu hachosi, a'u heffaith ar y GIG, canfu astudiaeth yn Lloegr yr adroddwyd am gymhlethdodau ynghylch 27.5% o driniaethau tyllu'r corff, a phroblemau digon difrifol i chwilio am gymorth ychwanegol mewn 12.9% o achosion. Ymysg pobl ifanc 16-24 mlwydd oed, arweiniodd 5.1% o'r triniaethau tyllu'r corff at ofyn am gymorth gan fferyllydd, 3% gan Feddyg Teulu, a 0.6% gan adran Damweiniau ac Achosion Brys, ac roedd angen i 0.9% gael eu derbyn i'r ysbyty. Er nad ydym ni wedi canfod data cyffelyb ar gyfer y triniaethau arbennig eraill, mae tystiolaeth o Unol Daleithiau America, er enghraifft, yn awgrymu cyfradd cymhlethdodau o 2-3% ar gyfer tatŵs. Darperir mwy o wybodaeth ym mharagraffau 541-556 o Femorandwm Esboniadol y Bil.

Fel y gŵyr y Pwyllgor, rydym ni hefyd wedi dod i wybod am achosion penodol, diweddar o niwed yn cael ei achosi yng Nghymru oherwydd arfer gwael. Anfonwyd naw unigolyn i'r ysbyty ac roedd angen llawdriniaeth arnynt a oedd yn ymwneud â'r haint pseudomonas yn dilyn tyllu'r cyrff a gafodd ei gynnal mewn un sefydliad yng Nghasnewydd. Fel yr eglurodd Dr Gill Richardson yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor ar 9 Gorffennaf 2015, bydd y digwyddiad hwn wedi costio oddeutu £0.25 miliwn i Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r awdurdod lleol.

Tystiolaeth fod y rhan fwyaf o ddefnyddwyr e-sigaréts hefyd yn defnyddio sigaréts tybaco confensiynol

Mae'r rhan fwyaf o'r defnyddwyr e-sigaréts yn "ddefnyddwyr deuol" sy'n parhau i ysmygu cynhyrchion tybaco confensiynol. Mae amrywiol awgrymiadau wedi eu gwneud ynghylch cyfran debygol ysmygwyr deuol, sef o dair rhan o bump o'r holl ddefnyddwyr sy'n oedolion yn 2015, yn ôl arolwg gan ASH UK,[1] hyd at 85% o'r holl ddefnyddwyr, yn ôl y Smoking Toolkit Study[2]. Ceir mwy o fanylion am yr astudiaethau hyn isod:

[1] ASH factsheet 33: Use of electronic cigarettes in Great Britain. May 2015
http://www.ash.org.uk/information/facts-and-stats/fact-sheets
[2] Smoking Toolkit Study. Trends in electronic cigarette use in England. Updated 23rd April 2015
http://www.smokinginengland.info/latest-statistics/

ASH factsheet 33: Use of electronic cigarettes in Great Britain. April 2014 and 20 October 2014, ar gael yn http://www.ash.org.uk/information/facts-and-stats/fact-sheets: Roedd y canfyddiadau'n cynnwys:-

- Mae amcangyfrif o 2.1 miliwn o oedolion ym Mhrydain Fawr yn defnyddio e-sigaréts ar hyn o bryd; ac
- Mae oddeutu traean o'r defnyddwyr yn gyn-ysmygwyr, ac mae dwy ran o dair yn ysmygu ar hyn o bryd.

Cyfanswm maint y sampl oedd 12,269, a gwnaed y gwaith maes rhwng 5 a 14 Mawrth 2014. Cynhaliwyd yr holl arolygon ar-lein. Hon yw'r ffynhonnell a ddefnyddiwyd yn yr Asesiad o Effaith Rheoleiddio ar gyfer Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru), a gymesurwyd ar gyfer Cymru.

ASH factsheet 33: Use of electronic cigarettes (vapourisers) among adults in Great Britain. May 2015 – ar gael yn http://www.ash.org.uk/information/facts-and-stats/fact-sheets. Roedd y canfyddiadau'n cynnwys:

- Mae amcangyfrif o 2.6 miliwn o oedolion ym Mhrydain Fawr yn defnyddio e-sigaréts ar hyn o bryd; ac
- Mae bron i ddau allan o bump o'r defnyddwyr yn gyn-ysmygwyr, ac mae tri allan o bump yn ysmygwyr ar hyn o bryd.

Cyfanswm maint y sampl ar gyfer yr astudiaeth hon oedd 12,055, a gwnaed y gwaith maes rhwng 26 Chwefror a 12 Mawrth 2015. Cynhaliwyd yr holl arolygon ar-lein.

Smoking Toolkit Study. Trends in electronic cigarette use in England. Updated 23 April 2015 – ar gael yn http://www.smokinginengland.info/latest-statistics/

Roedd yr astudiaeth hon yn ymwneud ag arolygon misol o aelwydydd, gyda sampl gynrychiadol newydd bob mis o oddeutu 1,800 o ymatebwyr ac oddeutu 450 ohonynt yn ysmygwyr.

Dangosir y canfyddiadau yn y graff isod.



Nid oedd data 2015 ASH ar gael ar adeg paratoi yr Asesiad o Effaith Rheoleiddio ar gyfer y Bil. O ganlyniad, defnyddiwyd data 2014 ASH yn yr Asesiad o Effaith Rheoleiddio, er mwyn inni allu gwneud ein hasesiad cyfredol gorau o gostau a manteision, gan eu bod yn darparu amcangyfrif o nifer presennol yr oedolion sy'n defnyddio e-sigaréts ym Mhrydain Fawr, yn ogystal â'r gyfran o ddefnyddwyr e-sigaréts sy'n parhau i ysmygu ar hyn o bryd (y 'defnyddwyr deuol', fel y'u gelwir). Adolygir yr Asesiad o Effaith Rheoleiddio yn ystod Cyfnod 2 o broses y Bil, ac ystyrir ailedrych ar y costau a manteision ar sail y dystiolaeth a data newydd fydd ar gael ar adeg yr adolygiad.

Trwy ddefnyddio data 2014 ASH, amcangyfrifir bod oddeutu 100,800 o ddefnyddwyr e-sigaréts yng Nghymru, a bod dwy ran o dair o'r defnyddwyr e-sigaréts yn eu defnyddio ochr yn ochr â chynhyrchion tybaco. Mae "defnyddwyr deuol" o'r fath yn parhau i wneud eu hunain yn agored i'r niweidiau iechyd a geir wrth ysmygu tybaco[3], a allai fod â goblygiadau negyddol i unigolion ac i iechyd y cyhoedd. Mae parhau i ysmygu unrhyw sigaréts confensiynol yn achosi'r risg gardiofasgwlaidd lawn yn y pen draw, ac efallai mai dim ond effaith gymedrol a fyddai ar y risg o ganser, oherwydd bod hyd y cyfnod ysmygu yn bwysicach na'r dwyster.[4] Mae NICE yn dangos y gallai fod rhai manteision lleihau niwed o ddefnyddio llai o dybaco os nad yw rhoi'r gorau iddi yn ddewis[5].

Yn seiliedig ar yr union ffynonellau hyn, nododd Iechyd y Cyhoedd Lloegr yn ei adroddiad 2015 fod oddeutu dwy ran o dair o ddefnyddwyr e-sigaréts hefyd yn ysmygu. O dderbyn y ffigur hwn, mae'n awgrymu bod angen data ar dafl-lwybr naturiol 'defnydd deuol', hynny yw, pa un a yw defnydd deuol yn fwy tebygol o arwain at roi'r gorau i ysmygu yn ddiweddarach ynteu at ddal ati i ysmygu.[6]

[3] http://www.nhs.uk/chq/Pages/2344.aspx?CategoryID=53
[4] Background Paper on E-cigarettes (Electronic Nicotine Delivery Systems). Rachel Grana, PhD MPH; Neal Benowitz, MD; Stanton A. Glantz, PhD. Center for Tobacco Control Research and Education University of California, San Francisco WHO Collaborating Center on Tobacco Control. Prepared for World Health Organization Tobacco Free Initiative December 2013.
[5] https://www.nice.org.uk/guidance/ph45
[6] E-cigarettes: an evidence update: A report commissioned by Public Health England. Public Health England. August 2015

Defnyddio e-sigaréts fel dull o roi'r gorau i ysmygu o'i gymharu â dewisiadau eraill

Er bod llawer o ysmygwyr yn rhoi'r gorau iddi heb droi at wasanaethau a chynhyrchion rhoi'r gorau i ysmygu, cydnabyddir y gall cynhyrchion nicotin wneud cyfraniad pwysig i gynorthwyo ysmygwyr i roi'r gorau iddi'n gyfan gwbl, neu i leihau eu defnydd o gynhyrchion tybaco.
Mae cynhyrchion tybaco yn cynnwys ffurfiau traddodiadol ar therapi disodli nicotin (NRT) trwyddedig, megis patsys nicotin, gymiau a losenni nicotin. Mae tystiolaeth ar gael i awgrymu nad yw'r defnydd tymor hir o NRT ar y cyd ag ysmygu yn cael ei gysylltu ag achosion cynyddol o niwed, gan gynnwys problemau cardiofasgwlaidd neu ganser, yn ôl y dadansoddiad diweddaraf o'r canlyniadau 12.5 mlynedd o ddechrau'r astudiaeth[7].

Nid yw effeithiau iechyd tymor hir y defnydd o e-sigaréts wedi eu profi hyd yma[8].
Mae'r dystiolaeth gryfaf yn dod o Adolygiad Cochrane[9] o 13 o astudiaethau a gwblhawyd ynghylch rhoi'r gorau i ysmygu, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2014. Nodwyd yn yr adolygiad hwn bod peth tystiolaeth ar gael o ddau arbrawf fod e-sigaréts sy'n cynnwys nicotin yn cynorthwyo ysmygwyr i roi'r gorau i ysmygu yn y tymor hir neu'n lleihau'r nifer a ysmygir, o'u cymharu ag e-sigaréts nad ydynt yn cynnwys nicotin. Fodd bynnag, daeth adolygwyr Cochrane i'r casgliad fod ansawdd y dystiolaeth yn isel ar y cyfan oherwydd ei bod wedi ei seilio ar nifer bychan o astudiaethau. Canfu'r un astudiaeth[10] a oedd yn cymharu e-sigaréts â phatsys nicotin nad oedd unrhyw wahaniaeth sylweddol yn y cyfraddau ymwrthod dros chwe mis. Er hynny nododd yr awduron nad oedd digon o rym ystadegol i'r astudiaeth, ac felly ni ellir diystyru gwahaniaeth clinigol pwysig.

Mae Memorandwm Esboniadol y Bil yn rhoi manylion am rai astudiaethau perthnasol, ac rydym yn parhau i fonitro'r deunydd darllen. Rydym yn ymwybodol o astudiaethau a dadansoddiadau mwy diweddar, er enghraifft, astudiaeth sy'n dangos bod y defnydd dyddiol o e-sigaréts ac ysmygu ar y cyd yn gysylltiedig â chynnydd yn yr ymdrechion i roi'r gorau i ysmygu a lleihau'r nifer o sigaréts a ysmygir, ond nid â rhoi'r gorau iddi. Fodd bynnag, canfu yr un astudiaeth nad yw'n ymddangos bod peidio â defnyddio e-sigaréts bob dydd, a pharhau i ysmygu, yn cynyddu'r ymdrechion i roi'r gorau i ysmygu, nac yn lleihau'r nifer a ysmygir[11]. Roedd dogfen ddiweddar arall, a oedd yn edrych ar 11 o astudiaethau cyhoeddedig, yn awgrymu bod ysmygwyr sy'n defnyddio e-sigaréts oddeutu 30% llai tebygol o roi'r gorau i ysmygu nag ysmygwyr nad ydynt yn defnyddio e-sigaréts[12].

---

[7] https://www.nice.org.uk/guidance/PH45/chapter/9-The-evidence
[8] Pisinger Charlotta, Døssing Martin, A systematic review of health effects of electronic cigarettes, *Preventive Medicine* (2014), doi:10.1016/j.ypmed.2014.10.009
[9] Electronic cigarettes for smoking cessation and reduction (Review). 2014. The Cochrane Collaboration. Published by John Wiley & Sons, Ltd. Ar gael yn: http://www.cochrane.org/features/new-cochrane-evidence-shows-electronic-cigarettes-facilitate-smoking-cessation
[10] Bullen C, Howe C, La ugesen M, McRobbie H, Parag V, Williman J, et al.Electronic cigarettes for smoking cessation:a randomised controlled trial. Lancet 2013;382(9905):1629–37.

[11] Is the use of electronic cigarettes while smoking associated with smoking cessation attempts, cessation and reduced cigarette consumption? A survey with a 1-year follow-up. Leonie S. Brose, Sara C. Hitchman, Jamie Brown, Robert West and Ann McNeill. Addiction Volume 110, Issue 7, pages 1160–1168, July 2015
[12] https://tobacco.ucsf.edu/meta-analysis-all-available-population-studies-continues-show-smokers-who-use-e-cigs-less-likely-quit-smoking March 2015

Mae llawer iawn wedi ei ddysgu ar draws y DU am ddarparu cymorth effeithiol ar gyfer rhoi'r gorau i ysmygu ers cyflwyno gwasanaethau arbenigol yn 2000. Edrychodd astudiaeth o ddata gan wasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu arbenigol yn Lloegr[13] ar 126,890 o gyfnodau triniaeth mewn 24 o wasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu yn 2009/10 er mwyn asesu'r cysylltiad rhwng nodweddion ymyrraeth a chyfraddau llwyddiant. Roedd amrywiaeth sylweddol mewn cyfraddau llwyddiant ar draws nodweddion ymyrraeth ar ôl addasu ar gyfer nodweddion ysmygwyr:

- Roedd NRT a ddefnyddiwyd ar ei ben ei hun yn gysylltiedig â chyfraddau llwyddiant uwch na dim triniaeth o gwbl;
- Roedd NRT, ar y cyd â Varenicline (meddyginiaeth presgripsiwn a ddefnyddir i drin caethiwed i nicotin), yn fwy llwyddiannus na defnyddio NRT ar ei ben ei hun;
- Roedd cymorth grŵp yn gysylltiedig â chyfraddau llwyddiant uwch na chymorth un i un;
- Roedd lleoliadau gofal sylfaenol (megis meddygfeydd ac ysbytai) yn llai llwyddiannus na chlinigau arbenigol.

Dywedir yn aml bod ysmygwyr hyd at bedair gwaith yn fwy tebygol o lwyddo i roi'r gorau i ysmygu trwy gael cymorth gan wasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu. Daw tystiolaeth i ategu'r datganiad hwn o astudiaethau a ganfu'r canlynol:

- Wrth gymharu mathau cyfatebol o ysmygwyr, oddeutu tri neu bedwar y cant yw cyfradd llwyddiant y rhai hynny sy'n rhoi'r gorau iddi heb unrhyw gymorth[14];
- Canfu un astudiaeth fawr yn Lloegr fod cyfraddau rhoi'r gorau i ysmygu a ddilyswyd trwy brawf anadl ar ôl 12 mis yn 15 y cant ar gyfer gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu, ac yn 20 y cant ar gyfer gwasanaethau arbenigol[15].

Yng Nghymru, cynorthwyir ysmygwyr i roi'r gorau i ysmygu trwy amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnwys gwasanaeth Dim Smygu Cymru a darpariaeth gynyddol o wasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu mewn fferyllfeydd cymunedol. Yn ddiweddar, dywedodd Dr Julie Bishop, cyfarwyddwr gwella iechyd ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru, fod Dim Smygu Cymru eisoes wedi dechrau gweithio i sicrhau bod ysmygwyr sy'n dewis defnyddio e-sigaréts i'w helpu i roi'r gorau i ysmygu hefyd yn gallu cael gafael ar gymorth ymddygiadol arbenigol[16].

Materion hawliau dynol ynghylch ysmygu a'r defnydd o e-sigaréts mewn anheddau preifat sydd hefyd yn weithleoedd

<u>Y gyfraith bresennol ar ysmygu mewn anheddau preifat sydd hefyd yn weithleoedd</u>

[13] Brose, West, McDermott, Fidler, & McEwan (2011). What makes for an effective stop-smoking service
[14] Hughes JR, Keely J, Naud S (2004). Shape of the relapse curve and long-term abstinence among untreated smokers. Addiction. 2004;99 29-38
[15] Ferguson J, Bauld L, Chesterman J, Judge K. (2005) The English smoking treatment services: one-year outcomes. Addiction. 100 Suppl 2:59-69.
[16] Page 4, The I newspaper 19 August 2015

Gweithredir y polisi di-fwg presennol dan Ddeddf Iechyd 2006 a Rheoliadau Mangreoedd Di-fwg etc. (Cymru) 2007 ("Rheoliadau 2007"). Mae Rheoliad 3 o Reoliadau 2007 yn cynnwys nifer o esemptiadau i ofynion di-fwg Deddf Iechyd 2006 o ran anheddau a ddefnyddir hefyd fel gweithleoedd. Sail resymegol y polisi i'r esemptiadau hyn oedd na ddylai fyth fod yn ofynnol i annedd breifat unigolyn fod yn ddi-fwg yn unig yn rhinwedd y ffaith bod unigolyn yn mynd i'r annedd i ddarparu gwasanaethau penodol ("y gwasanaethau wedi'u heithrio").

Dyma'r "gwasanaethau sydd wedi'u heithrio":

(i) darparu gofal personol neu ofal iechyd i berson sy'n byw yn yr annedd;
(ii) cynorthwyo gyda gwaith domestig yr aelwyd yn yr annedd;
(iii) cynnal strwythur neu adeiladwaith yr annedd: a
(iv) gosod, arolygu, cynnal, neu symud unrhyw wasanaeth a ddarperir i'r annedd er budd y personau sy'n byw ynddi.

Cyflawnodd Rheoliadau 2007 nod y polisi cyffredinol hwn trwy gyfuniad o ddwy ddarpariaeth:

(i) Rheoliad 3(1)(b), sy'n datgan na all rhan o annedd breifat fyth fod yn ddi-fwg heblaw ei fod yn cael ei ddefnyddio ar gyfer dibenion gwaith *yn unig* (neu os y'i rhennir gydag annedd breifat arall – Rheoliad 3(1)(a)); a
(ii) Rheoliad 3(3), sy'n datgan hyd yn oed os oes rhannau o annedd breifat a ddefnyddir ar gyfer dibenion gwaith yn unig, nid yw'n ofynnol i'r rhannau hynny fod yn ddi-fwg os yw'r gwaith yn cynnwys y gwasanaethau wedi'u heithrio yn unig.

Bydd y rhan fwyaf o'r rhannau o anheddau a ddefnyddir ar gyfer darparu gwasanaethau wedi'u heithrio yn cael eu defnyddio'n *rhannol* yn unig at y dibenion hynny. Mae Rheoliad 3(1)(b) yn datgan nad yw'n ofynnol i'r rhannau hynny fod yn ddi-fwg. Mae Rheoliad 3(3) yn sicrhau nad oes unrhyw rannau o'r annedd a ddefnyddir *yn unig* at ddibenion y gwasanaethau wedi'u heithrio yn cael eu dal trwy amryfusedd i fod yn ofynnol ddi-fwg (er enghraifft, ystafell a ddefnyddir yn unig fel man lle y mae ffisiotherapyddion yn mynd iddi i roi ffisiotherapi i breswyliwr, neu ystafell mewn annedd a ddefnyddir yn unig gan wasanaethydd domestig i gadw offer glanhau ac ati).

Mae'r sail resymegol i'r polisi o beidio â'i gwneud hi'n ofynnol fyth i ran o annedd breifat fod yn ddi-fwg dim ond oherwydd y darperir gwasanaethau wedi'u heithrio yno yn gysylltiedig â'r gofyniad i fangreoedd di-fwg fod yn ddi-fwg bob amser (hynny yw, 24 awr y dydd)[17], ac nid yn unig pan y'u defnyddir fel gweithle. Mae natur y gwasanaethau wedi'u heithrio yn golygu eu bod, fel arfer, yn cael eu darparu ar brydiau yn unig (er enghraifft, yn wythnosol, yn fisol neu'n flynyddol). Fel y cyfryw, ystyrir y byddai'n anghymesur i wneud y meddiannydd yn droseddwr pe byddai ef neu hi'n digwydd bod yn ysmygu wrth fynd heibio trwy'r rhan berthnasol o'r annedd, er gwaetha'r ffaith na fyddai'r rhan honno o'r annedd, efallai, yn cael ei defnyddio at ddibenion gwaith am, er enghraifft, chwe mis.

Yn hyn o beth, gellid gwahaniaethu rhwng y gwasanaethau wedi'u heithrio, pan nad yw meddiannydd yr annedd wedi dewis rhedeg busnes o'r cartref a'i fod ond yn derbyn mathau arbennig o wasanaethau o bryd i'w gilydd, a phan fo'r meddiannydd wedi dewis rhedeg busnes o'r cartref, a'i fod yn defnyddio rhan o'r cartref at y diben hwnnw yn unig. Yn yr olaf, gwnaed penderfyniad ymwybodol i wneud rhan o'r cartref yn weithle, ac yn

[17] Mae adran 2(2) yn darparu ei bod yn ofynnol i fangreoedd di-fwg fod yn ddi-fwg bob amser.

gyffredinol, byddai'r gweithle hwnnw'n cael ei ddefnyddio'n fwy rheolaidd nag y byddai'r gwasanaethau wedi'u heithrio yn cael eu darparu. Fel y cyfryw, ystyrir ei bod yn gymesur i'w gwneud hi'n ofynnol i rannau o anheddau, a ddefnyddir fel gweithleoedd yn unig (hynny yw, lleoedd lle y rhedir busnes oddi yno), fod yn ddi-fwg bob amser.

E-sigaréts ac anheddau preifat

Ystyrir y sefyllfa bresennol a amlinellir uchod ymhellach yng nghyd-destun Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru), yn enwedig o ystyried y bydd y Bil yn ei gwneud hi'n ofynnol i unrhyw rannau o anheddau a ddefnyddir yn rhannol neu'n unig fel gweithleoedd fod yn ddi-fwg, ond dim ond pan y'u defnyddir fel gweithle. Gan nad oes unrhyw esemptiadau perthnasol yn y rheoliadau a wnaed dan adran 10 y Bil, bydd adran 6 yn ei gwneud hi'n ofynnol i rannau o anheddau preifat sy'n weithleoedd fod yn ddi-fwg pan y'u defnyddir fel gweithle. Yn y cyd-destun hwn, mae 'di-fwg' yn golygu y bydd ysmygu a defnyddio dyfeisiau mewnanadlu nicotin yn cael eu gwahardd.

Wrth ddatblygu ein polisi ynghylch defnyddio dyfeisiau mewnanadlu nicotin mewn anheddau a ddefnyddir fel gweithleoedd, ystyriwyd tri dewis:

(i) caniatáu'r defnydd o ddyfeisiau mewnanadlu nicotin bob amser;
(ii) gwahardd y defnydd o ddyfeisiau mewnanadlu nicotin (ac ysmygu) bob amser; a,
(iii) gwahardd ysmygu a'r defnydd o ddyfeisiau mewnanadlu nicotin pan ddefnyddir y rhan berthnasol o'r annedd fel gweithle (h.y. yr ymagwedd a gymerwyd yn y Bil).

55 – 144B of Act – Local Market Stability Reports	Form, timing and content of local market stability reports
58(1); (4) – Specifying criteria for application of market oversight regime	Criteria for determining whether, and extent to which, s60 applies to a service provider.
60(6); (7) – Assessment of financial sustainability of service provider	Obtaining appropriate information and the making of assessments.
62(1); (3) – National Market Stability Report	Timing, publication and content of the national market stability.
110(5) – Use of title 'social worker' etc.	Organisations who may maintain a 'relevant register' – *subject to changes elsewhere in the UK.*
118(4)(d) – Preliminary consideration	Persons who may not carry out preliminary consideration - *subject to changes elsewhere in the UK.*
124(5)(d) – Duty to investigate	Persons who may not carry out investigations - *subject to changes elsewhere in the UK.*

Section 28 – Guidance about regulations under sections 26 & 27 to be developed by CSSIW once regulations have been developed.

Remaining regulations will be developed by April 2019 or as and when required.

Mark Drakeford AC / AM
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: LF/MD/0775/15

David Melding AM
Chair of the Constitutional and Legislative Affairs Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Dear David,

8 September 2015

Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Bill

You will recall, during the General Principles debate on the Bill on 14 July, I confirmed that I would provide a detailed response to your Committee's Stage 1 report and its 14 recommendations. Whilst there is no strict requirement to provide a response to every single one of the recommendations, I feel that it is important to help you understand the consideration that I have given to each of them.

I am copying this letter to David Rees AM, Chair of the Health and Social Care Committee.

Best wishes,

Mark

Mark Drakeford AC / AM
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence.Mark.Drakeford @wales.gsi.gov.uk

Recommendations from the Constitutional and Legislative Affairs Committee Stage 1 Report into the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Bill.

I thank the Constitutional and Legislative Affairs Committee for their detailed consideration of the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Bill. I have considered each of your recommendations and am responding accordingly.

Recommendations 2, 3 and 4 call for a number of amendments to be made to the Bill, I am happy to confirm that I **accept** all three recommendations and will bring forward amendments in response to all three recommendations at stage two. My response to recommendation 2 will take the form of amending a number of sections to ensure a duty to consult applies, for example to sections 35 and 38.

In respect of recommendation 3 I accept the principle of this recommendation, however I will not be bringing forward an amendment to change the procedure for regulations introduced under section 6(1)(d) of the Bill. I will however bring forward amendments to put more detail directly on the face of the Bill regarding the fitness test to provide services and be nominated as a Responsible Individual. I believe this goes beyond the intention for this recommendation so trust the Committee will be satisfied by this approach.

I will bring forward an amendment to put extra detail regarding the content of the annual return directly on the face of the Bill, this will set out some of the standard information that will be required. I will also propose amendments to the Bill at stage two so that the first set of regulations drafted under this section will be subject to the affirmative procedure.

As previously indicated I have considered **recommendation 5** in further detail, I remain of the view that it would not be helpful to list on the face of the Bill some of the potential circumstances in which Welsh Ministers may designate a Responsible Individual. Such an amendment would not in my view enhance the Bill and could instead have the unintended consequence of the list being interpreted as exhaustive and tie the hands of Welsh Ministers in dealing with unlisted and unexpected circumstances. On this basis I am **rejecting** this recommendation.

I have reviewed sections 26-30 of this Bill in response to **recommendation 6** and noted the views of the Committee but am of the view that there is inherent risk in placing further detail on the face of the Bill. I intend the power to be wide so that the things that providers may be required to do may be many and varied. The Assembly will have the opportunity to review the appropriateness of each of the requirements that may be imposed via the affirmative procedure. There is further detail in the Explanatory Notes which accompany the Bill. I am happy to commit to review that information to see if additional detail can be provided, however I am **rejecting** this amendment.

Recommendations 7, 8, 9 and 10 call for amendments to be made to the Bill to apply the super affirmative procedure to a number of sections of the Bill relating to ratings, offences, penalty notices and financial sustainability. I am happy to accept the principle behind the recommendations, which would require a 12 week consultation on the draft regulations themselves with a statement from the Minister regarding the consultation and detailing what the regulations change. I will give effect to this recommendation by making amendments to the Explanatory Notes detailing that it would be our intention to follow the procedure set out

in section 33 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 for substantive regulations.

The committee recommended in **recommendation 11** that the affirmative procedure is applied to section 110(5) relating to protection of title. Protecting titles of social care workers is a significant regulatory intervention and because of this I have already considered that the affirmative procedure should apply to section 110(2) where the titles of other social care workers, in addition to social workers are protected. However, I am not of the view that the affirmative procedure is needed in relation to section 110(5) as this will only need to be used if there are changes to those relevant regulators listed in subsection (4). Such changes will only be made to keep the Bill up to date. The regulation making power will not therefore substantially affect the provisions of the Bill. I am therefore **rejecting** this recommendation.

Recommendation 12 calls for an amendment to the Bill to apply the affirmative procedure to the making of regulations under section 124(5)(d). The Committee's report refers to the fact that this is because section 124 relates to the right to a fair trial under the European Convention on Human Rights and this could therefore potentially be compromised by the composition of a fitness to practise panel. Section 124(5) deals with those persons who are precluded from carrying out an investigation. Provision in relation to the composition of the panel adjudication decisions is set out in section 172. This is to ensure that there is a separation between those carrying out investigations into a person's fitness to practise and those adjudicating on those issues. The regulation making power in section 125(5)(d) enables persons to be added to that list of persons who cannot carry out an investigation. It does not allow the Welsh Ministers to 'take away' from that list. Therefore the separation between investigation and adjudication required by Article 6 of the European Convention on Human Rights will always be maintained irrespective of whether regulations are made or not. As such, this detail is relatively minor in the overall legislative scheme and I am concerned that applying the affirmative procedure in line with **recommendation 12** would tie up National Assembly and Government resources. I am therefore **rejecting** this recommendation.

The power in section 135(2) is included in order to enable the lists of persons to whom Social Care Wales is required to disclose details of undertakings agreed with a registered person to be kept up to date and adjusted if the key organisations or structures within social care change. The disclosure of undertakings is a significant feature of public protection and as such, it is important that the list of persons to whom disclosure must be made is carefully and thoroughly considered. I therefore **accept** the **recommendation 13** that these regulations should be subject to the affirmative procedure.

Recommendation 14 calls for an amendment to apply the negative procedure commencement orders that include transitory, transitional or saving provisions in accordance with section 254(3). I am **rejecting** this recommendation as the making of commencement orders is not normally subject to any procedure, as they bring into force what the National Assembly has already approved, I see no reason to therefore deviate from the current convention in relation to commencement orders.

Mark Drakeford AC / AM
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: LF/MD/0600/15

David Rees AC
Cadeirydd
Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

17 Gorffennaf 2015

Annwyl David,

Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru)

Yn fy llythyr atoch ar 25 Mehefin ynglŷn â'r Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru), mynegais fy mwriad i gyflwyno gwelliannau Llywodraeth Cymru cyn toriad yr haf.

Llythyraf atoch er mwyn rhoi gwybod am y cynnydd. Gwneir gwaith pellach ar y gwelliannau ac rwy'n parhau i weithio gyda'r Aelod sy'n Gyfrifol.

Cyflwynir y gwelliannau cyn diwedd toriad yr haf.

Parhaf i roi gwybod ichi am y cynnydd.

Mark Drakeford

Mark Drakeford AC/AM
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence.Mark.Drakeford @wales.gsi.gov.uk

Mark Drakeford AC / AM
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref SF/MD/2115/15

David Rees AC
Cadeirydd, Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

17 Gorffennaf 2015

Annwyl David,

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 24 Mehefin 2015 yn gofyn cyfres o gwestiynau yn dilyn fy ymddangosiad yn eich Pwyllgor ar 17 Mehefin. Ceir atebion i bob cwestiwn isod.

Manylion y dyraniadau ychwanegol o £6.8 miliwn ar gyfer perfformiad gofal wedi'i gynllunio a £6.8 miliwn ar gyfer pwysau'r gaeaf ar Fyrddau Iechyd a ddarparwyd yn ystod 2014-15 (manylion a amlinellwyd ym mharagraff 8 o'ch papur ysgrifenedig), fesul bwrdd unigol.

Gwelir manylion y dyraniadau pwysau'r gaeaf ychwanegol gan bob sefydliad yn y GIG yn y tabl isod:

Bwrdd Iechyd Lleol	**Pwysau'r gaeaf ar YGAC**	**Pwysau'r gaeaf ar Ofal Heb Ei Drefnu**	**Pwysau'r gaeaf - gofal wedi'i gynllunio a gollwyd**	**Cyfanswm**
	£m	**£m**	**£m**	**£m**
BI Aneurin Bevan		0.5	0.4	0.9
BI Abertawe BM		3.4	0.4	3.8
BI Betsi Cadwaladr		0.0	3.0	3.0
BI Caerdydd a'r Fro		0.0	1.1	1.1
BI Cwm Taf		2.9	0.5	3.5
BI Hywel Dda		0.0	0.9	0.9
BI Powys		0.0	0.4	0.4
YGAC	8.0			8.0
Cyfanswm	**8.0**	**6.8**	**6.8**	**21.6**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence.Mark.Drakeford@wales.gsi.gov.uk

Manylion cynnwys cyffredinol y cyllidebau gofal sylfaenol ac eilaidd, i gynnwys gwybodaeth am:

- **y dyraniadau i ofal sylfaenol ac eilaidd yn 2014-15;**

Mae'r tabl isod yn manylu ar y dyraniadau ar ffurf adnoddau refeniw a roddwyd i Fyrddau Iechyd Lleol yng Nghymru ar gyfer 2014-15.

Dyraniadau Adnoddau Refeniw 2014-15	**£m**
Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol	469.1
Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol	143.7
Gwasanaethau Fferyllol	158.9
Gwasanaethau Ysbytai a Gofal Iechyd Cymunedol	4,856.5
	5,628.2

Sail y cyfrif - deillio o rannu cyfyngiadau adnoddau terfynol i Fyrddau Iechyd ar gyfer 2014-15, yn unol â Chofnodion Cyllid Grŵp Cefnogi'r System Iechyd

Dylai'r Pwyllgor nodi y bydd y "dyraniadau adnoddau" uchod yn eithrio cyllid arall sy'n cael ei ddarparu i Fyrddau Iechyd Lleol neu i gyrff allanol at bwrpas gofal sylfaenol neu eilaidd a reolir drwy gyllidebau iechyd canolog heb eu dirprwyo i sefydliadau'r GIG. Bydd y rhain yn cynnwys gwasanaethau a gaiff eu had-dalu naill ai ar sail costau gwirioneddol, er enghraifft, gwasanaethau offthalmig, prosiectau a gyllidir drwy grantiau a chyllidebau ar gyfer addysg a chyllidebau hyfforddi staff y GIG.

Dylid nodi hefyd bod dyraniad y Gwasanaethau Ysbytai ac Iechyd Cymunedol o £4,856.5 miliwn yn cynnwys cyllid ar gyfer darparu rhai gwasanaethau gofal sylfaenol penodol nad ydynt yn cael dyraniadau adnoddau gofal sylfaenol ar wahân. Ymhlith yr enghreifftiau mae cyffuriau a chyfarpar gofal sylfaenol a roddir ar bresgripsiwn.

- **cyfran y gorwariant yn 2014-15 y gellid ei briodoli i ofal sylfaenol a hefyd gofal eilaidd; a**

Nid wyf yn cofio'r cwestiwn hwn yn cael ei ofyn yn y pwyllgor ac nid yw'n rhywbeth y gellir ei nodi'n rhwydd am y rhesymau a nodir uchod. Yn gyffredinol, mae byrddau iechyd yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau gofal sylfaenol ac eilaidd. Ceir monitro ac adrodd yn ôl ar berfformiad ar lefel gyffredinol ac nid ar wahân ar draws y penawdau gofal sylfaenol ac eilaidd.

Byddai unrhyw gyfrif i rannu'r uchod ar lefel genedlaethol yn galw am lefel o ddyrannu yn lleol ac yn genedlaethol; rhannu cyllidebau canolog a chyfateb gwybodaeth rhwng dyraniadau a'r cyfrifon a gyhoeddwyd er mwyn ceisio adnabod y gwahanol amrywiaethau. Nid wyf wedi gofyn i swyddogion gyfrif hwn am yn ol oherwydd byddai'n rhaid rhybuddio ynghylch anwadalrwydd y ffigurau am y rhesymau a nodwyd uchod.

- **y cynnydd/gostyngiad mewn cyllidebau gofal sylfaenol ac eilaidd ar gyfer pob un o'r pum mlynedd diwethaf, yn enwedig fel cyfran o'r gyllideb adrannol gyffredinol.**

Mae'r tabl isod yn manylu ar y dyraniadau adnoddau refeniw a ddarparwyd i Fyrddau Iechyd Lleol yng Nghymru ar gyfer 2010-11 i 2014-15, a'r cynnydd canran dros y cyfnod o bum mlynedd.

	2010-11	2011-12	2012-13	2013-14	2014-15	Cynnydd canran yn ystod y 5 mlynedd
	£m	£m	£m	£m	£m	%
Dyraniadau Gofal Sylfaenol	729	740	754	766	772	5.9%
Dyraniadau Gwasanaethau Ysbytai ac Iechyd Cymunedol	4,624	4,740	4,768	4,672	4,856	5.0%
Cyfanswm	**5,353**	**5,480**	**5,522**	**5,438**	**5,628**	**5.2%**

**O 2011-12 ymlaen, cafodd y dyraniad blynyddol ar gyfer presgripsiynau ei drosglwyddo i ddyraniad y Gwasanaethau Ysbytai ac Iechyd Cymunedol, mae 2010-11 wedi cael ei ailgyflwyno ar sail gyson er mwyn darparu cymhariaeth.*
Sail y cyfrif - deillio o rannu cyfyngiadau adnoddau terfynol i Fyrddau Iechyd ar gyfer pob blwyddyn, yn unol â Chofnodion Cyllid Grŵp Cefnogi'r System Iechyd

Esbonio'r dyddiad pryd cafodd byrddau iechyd yng Nghymru wybod na fyddai'n rhaid ad-dalu gorwariant a chyllid broceriaeth a ddarparwyd ar ddiwedd 2013-14 cyn i Ddeddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014 ddod i rym.

Rwyf yn siŵr y bydd y pwyllgor yn deall nad yw perfformiad alldro'r GIG bob blwyddyn yn derfynol nes bod yr holl gyfrifon terfynol, gan gynnwys cyfrifon cryno'r GIG, wedi'u cyflwyno ger bron yr Archwilydd Cyffredinol yn y Cynulliad. Roedd hyn ym mis Gorffennaf 2014 ar gyfer blwyddyn ariannol 2013/14. Daeth gofynion newydd Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014 i rym cyn cwblhau alldro 2013/14 h.y. mis Ebrill 2014.

Yn fy natganiadau ysgrifenedig ym misoedd Mai a Mehefin 2014, ar gyfer y trefniadau cynllunio newydd a gyflwynwyd ar y 1af Ebrill, esboniais yn glir bod y drefn newydd yn arwydd o newid sylweddol mewn trefniadau rheoli ariannol. Fel rhan o'r trefniadau newydd, roeddwn yn glir na fyddem yn dal ati i ddarparu cyllid ychwanegol i sefydliadau oedd heb gynlluniau cadarn yn eu lle ac a oedd yn parhau i brofi diffygion ariannol flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae'r ymrwymiad hwn wedi'i fodloni ers cyflwyno'r drefn newydd.

Yn fy natganiad ysgrifenedig ym mis Mehefin 2004, amlinellais mai dim ond cynlluniau a fyddai'n llwyddiannus mewn proses fanwl y byddwn yn eu cymeradwyo, er mwyn sicrhau ein bod yn rhoi terfyn ar unrhyw gysyniad o ddiwylliant o ddiffygion ariannol. Dim ond dau gynllun, sef cynlluniau Byrddau Iechyd Caerdydd a'r Fro a Phrifysgol Cwm Taf, oedd yn cynnwys ad-dalu diffygion 2013/14, ond yn y ddau achos roedd y taliad ymlaen llaw wedi'i gynllunio ar gyfer blwyddyn tri eu cynlluniau (2016/17). Yn ystod y broses gymeradwyo, dywedodd swyddogion wrth y ddau fwrdd y byddai cadarnhad o'r trefniadau ynghylch peidio ag ad-dalu diffygion 2013/14 yn cael ei roi yn nes ymlaen yn ystod y flwyddyn ac y dylent ganolbwyntio ar weithredu eu cynlluniau cymeradwy yn llawn cyfamser. Ni chafodd hyn unrhyw

effaith ar eu cynlluniau yn 2014/15 oherwydd nid oedd yr ad-daliadau wedi'u cynllunio tan flwyddyn 3 yn eu cynlluniau unigol.

Yn fy natganiad ysgrifenedig ym mis Mehefin hefyd dywedais y byddwn yn gweithio gyda'r Gweinidog Cyllid dros yr haf i edrych ar sut byddai'r cyllid gofynnol a amlinellwyd yn Adroddiad annibynnol Ymddiriedolaeth Nuffield a gyhoeddwyd ym mis Mehefin yn cael ei ddarparu. Pan gyhoeddwyd cyllideb 2015/16 (gan gynnwys y cyllid ychwanegol ar gyfer 2014/15) ddiwedd mis Medi, cadarnhaodd fy swyddogion na fyddai'n rhaid ad-dalu gorwariant 2013/14, drwy gyfrwng cyflwyniadau i Gadeiryddion a Phrif Weithredwyr ar ôl cyhoeddi'r gyllideb. Rhannwyd cynnwys y cyflwyniadau a chadarnhawyd y dull o weithredu gydag archwilwyr hefyd, cyn gynted ag yr oedd hynny'n ymarferol, yn ystod cyfarfod diweddaru rheolaidd ar ôl cyhoeddi'r gyllideb.

Er bod y bwriad o ran peidio â gofyn am ad-daliad yn glir o ddechrau'r hydref, dylid nodi mai 2014/15 oedd y flwyddyn gyntaf i'r ddeddfwriaeth a'r dull archwilio gyda'r drefn newydd gael eu rhoi ar waith. Gweithiodd fy swyddogion yn agos â staff ACC ar y gweithredu ymarferol ac ar y dehongliad o'r ddeddfwriaeth yn ystod y misoedd a oedd yn arwain at ddiwedd y flwyddyn. Nododd y swyddogion yn glir yr angen am ddod â'r hen drefn i ben yn ystod y trafodaethau hyn.

Ar ôl y gwaith a amlinellwyd uchod, gofynnwyd am i'r esboniad terfynol o beidio ag ad-dalu ar gyfer 2013/14 gael ei nodi'n ysgrifenedig gan yr archwilwyr a'r byrddau iechyd fel rhan o'r broses diwedd blwyddyn, er mwyn ei ddatgan yn glir yn y cyfrifon a gyhoeddwyd. Gwnaeth y swyddogion hyn ar 5ed Mai 2015 mewn llythyr a oedd yn datgan na fyddai angen ad-dalu diffygion a broceriaeth 2013/14 ond y byddai'n rhaid adfer unrhyw ddiffygion o dan y drefn ariannol newydd.

Mae'r uchod wedi cael sylw wedyn yng nghyfrifon cryno sylfaenol y byrddau iechyd a'r GIG a gyhoeddwyd, er mwyn adlewyrchu'n gywir y gofynion adrodd yn ôl y cytunwyd arnynt o dan y drefn ariannol newydd ac yn fy natganiad ysgrifenedig ar alldro 2014/15.

Diweddariad ar y gwaith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud ar lif ariannol ar draws ffiniau byrddau iechyd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda GIG Cymru ar lif ariannol ar draws ffiniau byrddau iechyd ers peth amser ond nid yw'r egwyddorion wedi cael eu llunio'n derfynol oherwydd y newidiadau gwasanaeth sylweddol arfaethedig y mae'n rhaid eu gweithredu.

Adolygwyd y mecanwaith llif ariannol cyfredol am y tro cyntaf ddwy flynedd yn ol gan y Cyfarwyddwr Cyllid, gyda'r egwyddorion yn cael eu cyflwyno ar gyfer eu hystyried. Cytunwyd bod raid i'r gwaith hwn gael ei adolygu gan Brif Weithredwyr ac eraill er mwyn adlewyrchu'r newidiadau arfaethedig o ganlyniad i'r trefniadau llif cleifion sy'n newid ac a fyddai'n codi drwy raglen De Cymru a chynlluniau ad-drefnu eraill.

Mae'r gwaith hwn yn cael ei arwain yn awr gan Gyfarwyddwr Cydweithredol y GIG, Bob Hudson. Cytunwyd y bydd y gwaith hwn yn cael ei ddiweddaru ar gyfer y cyfarfod nesaf o'r Prif Weithredwyr ym mis Medi, ble bydd posib ystyried yr egwyddorion newydd ar gyfer llif incwm ac ariannol ar gyfer rhaglenni sy'n dechrau yn 2016/17.

Pa dechnegau ystadegol a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru a'r byrddau iechyd i geisio rhagweld pwysau'r gaeaf ac a yw hyn yn cael ei adlewyrchu mewn dyraniadau blynyddol cyffredinol i fyrddau iechyd?

Ceir dealltwriaeth dda o'r newidiadau mewn patrymau cyffredinol o alw mewn perthynas â'r gwahanol dymhorau ac mae posib ei ragweld i raddau helaeth. Er enghraifft, bob blwyddyn mae mwy yn dod i mewn i'r Adran Gwasanaethau Brys dros fisoedd yr haf nag yn ystod y gaeaf. Mae Llywodraeth Cymru, Byrddau Iechyd Lleol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn adolygu ac yn dadansoddi tueddiadau dros amser yn rheolaidd er mwyn deall beth sy'n sbarduno galw cyffredinol, patrymau galw ac oedran y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaethau.

Er bod dealltwriaeth o bwysau tymhorol, ni ellir fyth rhagweld y rhain yn fanwl gywir o ddydd i ddydd yn rhy bell ymlaen llaw. Mae'r dystiolaeth yn dangos y gellir cael amrywiaeth sylweddol o ran galw dyddiol a phwysau ym mhob tymor, a achosir gan newidiadau yn y tywydd. Mae hyn yn cael effaith annheg yng Nghymru o ystyried ei phroffil oedran, yn enwedig y gyfran uchel o henoed. Y ffactor bwysig arall sy'n arwain at newidiadau mewn galw, yn enwedig dros y gaeaf, yw amlygrwydd afiechydon heintus sy'n cael effaith sylweddol ar wasanaethau gofal heb eu trefnu ac unwaith eto mae hyn yn gysylltiedig ag oedran.

Mae'r GIG yn datblygu cynlluniau penodol ar gyfer y gaeaf sy'n cynnwys rhagfynegi galw a chynlluniau wrth gefn ar gyfer y tywydd, gyda £40 miliwn ychwanegol yn cael ei neilltuo ar gyfer pwysau'r gaeaf yn 2014/15. Mae'r dyraniad blynyddol i fyrddau iechyd yn adlewyrchu galw a gwariant drwy gydol y flwyddyn.

Esboniad ynghylch pryd daeth swyddfa'r Archwilydd Cyffredinol yn ymwybodol na fyddai'n rhaid i sefydliadau'r GIG ad-dalu broceriaeth a gorwariant 2013-14, yng ngoleuni datganiad yn Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar GIG Cymru: Trosolwg o Berfformiad Ariannol a Gwasanaeth 2013-14 "bydd yr Adran nid yn unig yn gofyn am ad-daliad unrhyw gyllid broceriaeth ar gyfer 2013-14 yn 2014-15, ond hefyd ad-daliad o unrhyw 'ddiffyg' gan y cyrff yn y GIG nad ydynt yn cyrraedd eu targedau ariannol".

Rwyf yn siŵr bod y Pwyllgor yn gwerthfawrogi bod cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal rhwng yr archwilwyr a'm swyddogion i. Fel y nodwyd eisoes, rwyf wedi cael gwybod y byddai rhai trafodaethau ar fwriad wedi cael eu trafod drwy gydol 2014/15 ond daeth hyn yn fwy ffurfiol ar ôl cyhoeddi'r gyllideb ym mis Medi a hyd at ddiwedd y flwyddyn. Rwyf yn deall bod adroddiad ACC wedi'i gyhoeddi ar 14eg Hydref ac efallai nad oedd y trafodaethau cadarnhau ar ôl cyhoeddi'r gyllideb wedi'u cynnal mewn pryd i gadarnhau unrhyw gyfeiriadau yn adroddiad ACC, yn enwedig pan oedd gweithredu'r ddeddfwriaeth am y tro cyntaf, a'i goblygiadau, yn cael eu trafod hyd at gyhoeddi cyfrifon 2014/15.

Pa ddata a gesglir i ddangos y cynnydd yng nghymhlethdod achosion cleifion a'i effaith ar gapasiti gwasanaethau iechyd yng Nghymru? Byddai'r Pwyllgor yn arbennig yn croesawu ffigurau misol am hyd yr arhosiad a'r capasiti o ran gwelyau mewn ysbytai, os oes rhai ar gael, am y pum mlynedd diwethaf.

Mae Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru yn casglu data amrywiol am dderbyn i ysbytai. Gellir defnyddio'r data hyn yn unigol ac yn gasgliadol i ganfod y cynnydd yng nghymhlethdod cleifion. Mae'r canlynol yn enghreifftiau nodweddiadol o eitemau o ddata sy'n cael eu dadansoddi'n rheolaidd gan Lywodraeth Cymru a darparwyr y GIG er mwyn dangos y newidiadau yn y llwyth achosion.

- Diagnosis Cleifion - mae'n nodi'r prif ddiagnosis ac yn cyflwyno cydforbidrwydd drwy gyfrwng codio ICD10;
- Gweithdrefn Weithredol - casglu unrhyw ymyriad(au) a gweithdrefn(au) gweithredol a gyflawnir gan ddefnyddio dosbarthiad codio OPCS4;
- Oedran Cleifion - er enghraifft, dadansoddi effaith poblogaeth sy'n heneiddio ar arhosiad mewn ysbyty;
- Hyd Arhosiad mewn Ysbyty - a ddefnyddir i adnabod newidiadau mewn amrywiaeth i ddosbarthiad arhosiad mewn ysbyty yn gysylltiedig ag oedran a chymysgedd o achosion;
- Canlyniadau Marwolaethau - er enghraifft, i fonitro'r effaith ar adnoddau gofal lliniarol yn sgil newidiadau yn nifer y marwolaethau;
- Grwpiau Adnoddau Gofal Iechyd - defnyddio grwpiau safonol o driniaethau tebyg yn glinigol sydd â lefelau cyffredin o adnoddau gofal iechyd;
- Dyddiadau Derbyn - defnyddir i ddadansoddi'r newidiadau mewn amrywiad tymhorol mewn cydweithrediad â ffactorau eraill.

Mae data pellach i ddangos newidiadau i gymhlethdod achosion ar gael o ystod o gasgliadau a chyfresi data. Er enghraifft, mae hyn yn cynnwys data mynediad gan Wasanaethau Brys a data galwadau gan y gwasanaethau Ambiwlans.

Mae'r daenlen sydd wedi'i hatodi'n cynnwys tablau a siartiau sy'n dangos tueddiadau pum mlynedd ar gyfer hyd arhosiad ar gyfartaledd. Mae'r siart dewisol ar gyfer hyd arhosiad ar gyfartaledd (prif arbenigeddau llawfeddygol) ar gyfer Cymru'n dangos gostyngiad o ryw 0.4 diwrnod dros y pum mlynedd. Mae hyn yn arbennig o arwyddocaol o ystyried bod cyfraddau'r achosion dydd wedi cynyddu 9% yn ystod yr un cyfnod. Ar ei ben ei hun, byddai hyn yn cynyddu hyd arhosiad ar gyfartaledd. I'r gwrthwyneb, mae hyd arhosiad brys ar gyfartaledd wedi cynyddu ryw 0.2 diwrnod yn ystod y cyfnod, wrth i ostyngiadau mewn effeithlonrwydd gael eu niwtraleiddio gan effaith poblogaeth sy'n heneiddio. Mae dargyfeirio cleifion a dderbyniwyd i ysbyty'n flaenorol (cyfnod byr) i unedau asesu yn ffactor sy'n cyfrannu at gynyddu canlyniadau hyd arhosiad ar gyfartaledd hefyd. Hefyd mae'r siart hyd arhosiad brys ar gyfartaledd yn tynnu sylw at yr amrywiad tymhorol o ran aros mewn ysbytai, yn enwedig yn ystod y cyfnodau brig dros y gaeaf ac ar ôl y gaeaf.

Darperir capasiti o ran gwelyau mewn ysbytai yn y ddogfen sydd wedi'i hatodi hefyd, ond dim ond yn chwarterol mae data cyn 2013 ar gael. Mae hyn yn dangos bod gostyngiad o 1,088 wedi bod rhwng 2010/11 a 2014/15 yn nifer y gwelyau sydd ar gael ledled Cymru, gostyngiad o 9%. Mae cynnydd mewn meddygfeydd dydd, ac unedau asesu newydd a mentrau eraill i osgoi derbyn i ysbytai, wedi cyfrannu'n sylweddol at lai o alw am welyau.

Mark Drakeford AC / AM
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Mark Drakeford AC / AM
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MB/MD/1761/15

David Rees AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Annwyl David,

17 Gorffennaf 2015

Mae'n bleser gen i eich hysbysu bod Dr Richard Lewis we cael ei benodi yn Arweinydd Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Sylfaenol yng Nghymru, yn dilyn cystadleuaeth agored. Bydd Dr Lewis yn rhoi arweiniad clinigol i helpu i sicrhau bod gofal iechyd yn cael ei gynllunio a'i ddarparu'n lleol.

Ar hyn o bryd, Dr Lewis yw Ysgrifennydd Cymdeithas Feddygol Prydain yng Nghymru ac mae hefyd yn Feddyg Teulu yng Nghymoedd y De. Fel Meddyg Teulu sydd â dros 25 mlynedd o brofiad ac sydd wedi gweithio mewn rôl arweiniol gyda Chymdeithas Feddygol Prydain am dros 10 mlynedd, mae'n meddu ar wybodaeth, profiad a dealltwriaeth fanwl o gryfderau a heriau presennol y system gofal sylfaenol yn y GIG yng Nghymru.

Byddaf yn cyhoeddi'r penodiad hwn heddiw yn lansiad cynllun y gweithlu ar gyfer gofal sylfaenol. Mae cynllun y gweithlu, a fydd yn destun chwe-wythnos o ymgysylltiad, wedi cael ei ddatblygu o ganlyniad i gam gweithredu a nodwyd yn y cynllun cyffredinol ar gyfer gwasanaethau gofal sylfaenol yng Nghymru. Mae'n rhoi camau gweithredu ar waith ar gyfer y tymor uniongyrchol a'r tymor-canolig i adeiladu sylfeini cryfach ar gyfer cynllunio'r gweithlu sydd ei angen arnom ar gyfer y dyfodol, er mwyn helpu i ddatblygu clystyrau yn y dyfodol ac ar gyfer buddsoddi yn y gweithlu gofal sylfaenol ehangach drwy addysg a hyfforddiant. Mae hefyd yn cynnwys cymryd camau i gefnogi adrannau allweddol o'r gweithlu presennol, mewn ymateb i'r pwysau amlwg sy'n parhau i effeithio ar rannau o Gymru wrth i fodelau gofal newydd gael eu datblygu.

Mae'r llythyr hwn yn cael ei gopïo i lefarwyr y gwrthbleidiau.

Yn gywir,
Mark.

Mark Drakeford AC / AM
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@cymru.gsi.gov.uk

Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

☎ 029 2044 5030
08442 64 06 80
www.olderpeoplewales.com

Cambrian Buildings
Mount Stuart Square
Cardiff CF10 5FL

Adeiladau Cambrian
Sqwâr Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FL

David Rees AC
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Y Swyddfa Ddeddfwriaeth
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

31 Gorffennaf 2015

Annwyl Gadeirydd

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Cod Ymarfer ar Eiriolaeth

Gan ystyried argymhellion y Pwyllgor ar ôl craffu ar Reoliadau Gofal a Chymorth (Cymhwysedd) (Cymru) 2015, roeddwn yn meddwl y byddai'n ddefnyddiol amlinellu'r prif bwyntiau rwyf wedi'u codi wrth ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Cod Ymarfer ar Eiriolaeth, fel rhan o'm swyddogaeth statudol i adolygu a yw'r gyfraith sy'n effeithio ar fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru yn ddigonol ac yn effeithiol.

1. Mae'r Ddeddf yn rhoi ymrwymiad penodol i alluogi pobl i wneud eu penderfyniadau eu hunain a rheoli eu bywyd eu hunain, ac i roi help i sicrhau bod llais pobl yn gryf, yn glir, yn cael ei glywed ac yn cael sylw priodol. Bydd **eiriolaeth annibynnol** yn hanfodol i bobl sy'n ei chael yn anodd gwneud yn siŵr bod eu llais yn cael ei glywed. Mae eiriolaeth annibynnol yn allweddol i lwyddiant y ddeddfwriaeth newydd hon. Mae'n **ymrwymiad pwysig ac mae'n rhaid iddo gael ei gynnwys** yn holl reoliadau a chodau ymarfer y Ddeddf. Nid wyf yn fodlon eto fod hyn wedi'i wireddu'n llwyr.

2. Mae'n rhaid sicrhau bod **dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau** yn sail i'r modd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu. Er bod llawer o rethreg ynglŷn â dyletswydd unigolion i gydlunio eu hatebion eu hunain i sicrhau eu canlyniadau o ran lles, nid yw'r hawl i eiriolaeth annibynnol yn cael yr un sylw. Bydd cydlunio go iawn yn digwydd pan mae pawb ar yr un lefel, felly rwy'n bryderus ynglŷn â'r ffaith bod y Cod Ymarfer ar Eiriolaeth, ar hyn o bryd, yn cynnig prawf sy'n dibynnu ar benderfyniad y gweithiwr proffesiynol ac sy'n rhoi cydlunio yn y fantol. Mae angen newid patrwm er mwyn

gweddnewid gwasanaethau cymdeithasol go iawn, a bydd hyn yn cynnwys mynd i'r afael â'r anghydbwysedd presennol mewn pŵer a allai atal y rheini sydd angen mynediad at eiriolaeth annibynnol rhag cael hynny. Er fy mod yn deall bod awdurdodau lleol yn wynebu cyfyngiadau ariannol, mae defnydd da o wasanaethau eiriolaeth annibynnol yn dda i unigolion, yn dda ar gyfer diogelu ac yn dda i'r pwrs cyhoeddus.

3. Bydd **newid diwylliant** awdurdodau lleol yn hanfodol er mwyn rhoi bwriad y Ddeddf ar waith, ac mae gofyn bod gan y rheini sy'n cyflawni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf ymwybyddiaeth dda o'r hawl i eiriolaeth annibynnol. Dylid edrych ar eiriolaeth annibynnol nid yn unig fel ffordd allweddol o wireddu dyheadau'r Ddeddf o ran llais a rheolaeth, ond hefyd fel rhywbeth hanfodol a hollbwysig wrth sicrhau gwasanaethau cyhoeddus effeithiol ac o safon. Fodd bynnag, nid yw'r angen i newid diwylliant mewn awdurdodau lleol wedi'i gynnwys yn y Cod Ymarfer ar Eiriolaeth a'r rhannau cysylltiedig ar hyn o bryd. Mae'n rhaid i staff awdurdodau lleol edrych yn gadarnhaol ar eiriolaeth annibynnol er mwyn iddo gael ei wreiddio mewn ymarfer o ddydd i ddydd. Felly bydd gweld sut bydd hyn yn cael sylw o ddiddordeb i mi.

Er fy mod yn siomedig nad yw fy argymhellion yn yr adroddiad '*Achos Busnes dros Eiriolaeth yng Nghymru'*[1] wedi cael eu datblygu, rwyf wedi ymrwymo o hyd i wneud yn siŵr bod pobl hŷn yn gallu cael gafael ar wasanaethau eiriolaeth effeithiol, gan gynnwys eiriolaeth annibynnol, pan fydd angen[2]. I bob golwg, nid yw'r Cod Ymarfer ar gyfer Mesur Perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnig unrhyw ddangosyddion a fydd yn cofnodi lefel y mynediad at wasanaethau eiriolaeth annibynnol. Rwyf wedi nodi bod hyn yn bryder, a byddaf yn cadw golwg ar y mater wrth i'r Ddeddf gael ei rhoi ar waith.

Yn gywir

Sarah Rochira

Sarah Rochira
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

---

[1] Achos Busnes dros Eiriolaeth, Mai 2014, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

[2] Blaenoriaeth pump: Mynd i'r afael â rhagfarn, anghydraddoldeb a gwahaniaethu, Fframwaith Gweithredu 2013-17, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Eitem 8.9

Dr Ruth Hussey OBE
Prif Swyddog Meddygol/Cyfarwyddwr Meddygol, GIG Cymru
Chief Medical Officer/Medical Director NHS Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David Rees AC
Cadeirydd, y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

11 Awst 2015

Annwyl David,

Deiseb P-04-603 Helpu babanod 22 wythnos oed i oroesi

Diolch am eich llythyr dyddiedig 14 Gorffennaf, yn gofyn am ragor o wybodaeth am amserlenni'r gwaith sy'n cael ei wneud ar y cyd gan y Rhwydwaith Mamolaeth a'r Rhwydwaith Newyddenedigol.

Mae disgwyl i'r ddogfen Mamolaeth a Newyddenedigol ar y cyd ynghylch gofal i fabanod sydd â siawns o oroesi, gael ei chyflwyno yng nghyfarfodydd y pwyllgorau llywio ar y rhwydwaith mamolaeth a rhwydwaith newyddenedigol ym mis Medi a mis Hydref, a bydd y ddogfen derfynol yn cael ei chyflwyno yng nghyfarfod y Grŵp Llywio Newyddenedigol ar 6 Tachwedd 2015.

Bydd y canllawiau hyn yn seiliedig ar ganllawiau presennol Cymdeithas Meddygaeth Amenedigol Prydain sy'n defnyddio tystiolaeth o ddogfennau meddygol a chonsensws broffesiynol.

Fel rhan o'r gwaith hwn, rydym hefyd am gael adborth gan rieni a BLISS (elusen sy'n gweithio i ddarparu'r gofal a'r cymorth gorau posibl i bob babi sâl a rhai sy'n cael eu geni'n gynnar a'u teuluoedd), ar y canllawiau a thaflenni gwybodaeth i rieni.

Ar ôl cwrdd â Ms Emma Jones, y deisebydd, ar 18 Chwefror 2015, bydd Dr Heather Payne, Uwch Swyddog Meddygol ar gyfer iechyd mamolaeth ac iechyd plant yn cynnig cyfarfod â Ms Jones eto er mwyn casglu ei sylwadau ar y ddogfen ddrafft. Yna, caiff yr adborth ei gyflwyno i'r Rhwydwaith Mamolaeth a'r Rhwydwaith Newyddenedigol sy'n gyfrifol am gyhoeddi'r canllawiau.

Cofion gorau

Ruth Hussey

PRIF SWYDDOG MEDDYGOL / CYFARWYDDWR MEDDYGOL GIG CYMRU

cc: William Powell AC, Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

Ffôn/Tel: 029 2082 3911
Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ
E-bost/Email:ruth.hussey@cymru.gsi.gov.uk

Mark Drakeford AC / AM
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: SF/MD/1929/15

David Rees AC
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

12 Awst 2015

Annwyl David

Rwy'n cyfeirio at fy natganiad ysgrifenedig ar 10 Mehefin ynghylch cymeradwyo cynlluniau tymor canolig integredig byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG. Fel y cofiwch adeg pasio Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014 a Fframwaith Cynllunio GIG Cymru, rhoddais sicrwydd y byddai archwiliadau priodol yn cael eu gosod i sicrhau bod cynlluniau tymor canolig integredig yn gadarn a bod modd eu cyflawni.

Cymeradwyais bum cynllun ym mis Mehefin (byrddau iechyd prifysgol Cwm Taf ac Aneurin Bevan, Bwrdd Addysgu Iechyd Powys, Iechyd Cyhoeddus Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre) a dywedais y byddai fy swyddogion yn parhau i weithio gyda byrddau iechyd prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a Chaerdydd a'r Fro i ddatblygu ymhellach a phrofi manylder eu cynlluniau. Cwblhawyd y gwaith hwn a chymeradwywyd cynlluniau tymor canolig integredig y ddau sefydliad yn 2015-16.

Fodd bynnag, cymeradwywyd yn amodol ar nifer o delerau ac amodau, a fydd yn destun craffu agos dros y misoedd nesaf. Mae'r amodau hyn yn cynnwys:

- Dangos tystiolaeth o berfformiad gwell ar draws targedau haen un a sicrhau y caiff safonau ansawdd eu cynnal a'u gwella ym mhob gwasanaeth;

- Sicrhau rheolaeth ariannol dda ar y cynllun.

Caiff perfformiad yn erbyn yr amodau hyn ei olrhain drwy drafodaethau rhwng prif weithredwyr a chadeiryddion, cyfarfodydd ansawdd, diogelwch a chyflawni, a chyd-gyfarfodydd timau gweithredol. Lle ceir amrywiadau annerbyniol o'r cynllun y cytunwyd arno, bydd sefydliad yn destun mwy o drefniadau monitro, herio, cymorth ac uwchgyfeirio, a gallai golli'r breintiau sy'n gysylltiedig â bod yn rhan o'r drefn cynllunio tymor canolig.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence.Mark.Drakeford @wales.gsi.gov.uk

Mae fy mhenderfyniad yn arwydd o'r trylwyrder parhaus sydd ei angen i weithredu'r trefniadau a amlinellir yn Fframwaith Cynllunio GIG Cymru a Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014.

Anfonwyd copi o'r llythyr hwn at Elin Jones AC, Kirsty Williams AC a Darren Millar AC a rhoddwyd copi yn llyfrgell y Cynulliad Cenedlaethol.

Mark Drakeford AC / AM
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Mark Drakeford AC / AM
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref SF/MD/1221/15

David Rees AC
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Cardiff CF99 1NA
SeneddHealth@Assembly.Wales

Ann Jones AC
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Cardiff CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales

17 Awst 2015

Annwyl gyfaill,

Mae'n bleser gen i amgáu copi o'r adolygiad o drefniadau neilltuo cyllid ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru.

Daw'r adolygiad i'r casgliad bod diben gwreiddiol y trefniadau neilltuo cyllid – i ddiogelu gwariant ar wasanaethau iechyd meddwl – wedi cael ei gyflawni ar y cyfan. Mae'n gwneud cyfres o gynigion ar gyfer gwella'r system yn y dyfodol, a byddaf yn ystyried y cynigion hyn.

Anfonaf gopi o'r llythyr hwn at lefarwyr y gwrthbleidiau hefyd.



Mark Drakeford AC / AM
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Cardiff • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@cymru.gsi.gov.uk

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon